CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD MISOL
24.02.2011 AM 7.30PM
NEUADD YR EGLWYS
LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD A GWEDDI AGORIADOL

Estynnwyd croeso i bawb gan y Maer Rob Phillips. Offrymwyd gweddi gan y Cyngh. Hag Harris. Bu i aelodau barchu munud o osteg er cof am y Cyngh. Ron Davies a fu farw'n ddiweddar.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Y Maer Rob Phillips (Cadeirydd); Robert (Hag) Harris (Dirprwy-Faer); Cecilia Barton; Elsie Dafis; Greg Evans; Chris Thomas; Selwyn Walters; Dorothy Williams & Derek Wilson.
Dinah Jones – Darlithydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

26 o Fyfyrwyr - Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.
Defnyddiwyd recordydd tâp gan un o'r myfyrwyr yn ystod y cyfarfod.
Yr Heddlu: Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones.
Y Wasg: Hannah Smith; Carl Stringer.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Andrew Carter; John Davies; Margaret Davies-Evans a Kistiah Ramaya.

3. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

3.1 **Polyn wedi ei ddifrodi ar y Cwmins:** Penderfynwyd i dderbyn cynnig Mr Alec Page. Amcanbris £275 (heb TAW) am bolyn newydd ar gyfer y fasged grogedig, sydd heb ei osod mewn lle, cyn belled. Bydd y troseddwr yn cwrdd â'r gost. Hoffai aelodau nodi eu diolch i'r SCCH Ryan Jones, y Plismon Richard Marshall a'r Plismon Llyr Williams am eu cymorth.

3.2 **Cais am fainc** ar gyfer y Stryd Fawr: **PENDERFYNWYD** peidio â lleoli mainc ar y Stryd Fawr.

3.3 **Parc-yr-Orsedd:** Y mae'r Heddlu'n wyliadwrus o'u harolygaeth o'r parc.

4. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

4.1 Dywedodd y Cyng. H. Harris a C. Barton bod ganddynt fuddiant yn eitem rhif 7.1.2 ar yr agenda, sef y cais gan *Gymorth I Ofalwyr.*

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 27ain o Ionawr 2011

Penderfynwyd llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain o Ionawr a'u derbyn yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 ETHOL MAER A DIRPRWY-FAER AR GYFER Y FLWYDDYN FWRDEISTREFOL 2011-12

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngh. Hag Harris a llythyr gan y Cyngh. Kistiah Ramaya yn cadarnhau eu bod yn derbyn y swyddi priodol o Faer a Dirprwy-Faer am y flwyddyn fwrdeistrefol olynol. Diolchodd y ddau am y fath anrhydedd a mynegwyd eu bod yn edrych ymlaen i wasanaethu'r dref hyd eithaf eu gallu.

6.2 SGWÂR HARFORD

Y mae hysbyseb yn gwahodd cynigion am welliannau'n ymwneud â'r Sgwâr Harfod (heb gynnwys y Ffynnon a'r cerrig palmant ar hanner amfesur y Sgwâr) wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd ac ar safle ar y we y Cyngor Tref – dyddiad cau 22.03.2011.

MANYLEB Y GWAITH

1. Adleoli'r bin mawr i ochr Stryd y Coleg wrth syllu ar y brif sedd, a'i sefydlogi i'r palmant;
2. Ail beintio'r ddau fin mewn lliw du ac aur;
3. Ail-beintio'r pigynau, y polion a'r gadwyn o gwmpas y Ffynnon mewn lliw du ac aur;
4. Ail-beintio'r gwaith haearn ar y Ffynnon mewn lliw du i gynnwys pennau llewod euraidd;
5. Ail-beintio'r arwyddion "Dim dŵr yfed" heb newid y lliwiau presennol;
6. Peintio'r canllawiau o gwmpas y gwelyau blodau mewn lliw du;
7. Peintio'r postion wedi eu halfaneiddio, ar gyfer y blodau crogedig, mewn lliw du;
8. Glanhau'r gwaith pren ar y seddau a'u hail-staenio â farnais.

Bydd yn ofynnol i'r contractwr llwyddiannus (ar gyfer yr uchod/ y Ffynnon ac o bosibl, gwirfoddolwyr y Banc HSBC) i gydymffurfio â pholisi'r Cyngor Sir Ceredigion (CSC), sydd mewn lle ar gyfer gweithwyr eu heiddo, beth bynnag yw'r sefyllfa parthed cymhorthdal. Bydd rhaid i ddarpar gontactwyr gwrdd â gofynion yr *Holiadur Contractwr Cyfluniant a Swyddogaethau* a'r *Cais Trwydded Stryd.*

ARDAL Y CERRIG MÂN A'R GWAITH CERRIG O GWMPAS Y MEINCIAU – Y LLAWR

Y mae'r banc HSBC wedi gwirfoddoli £1,000 mewn amser ar gyfer glanhau'r cerrig palmant a'r gwaith cerrig, sef arwynebedd y llawr. **PENDERFYNWYD** derbyn eu cynnig.

Parthed y FFYNNON; Cytunwyd i ofyn i wirfoddolwyr y Banc HSBC i lanhau'r hanner isaf y Ffynnon (o dan yr arysgrif). Os na fydd yn bosibl iddynt gyflawni'r gwaith rhaid hêl cynigion. **PENDERFYNWYD** – Y Cadeirydd Rob Phillips i gysylltu a'r Banc HSBC i drafod ymhellach. **PENDERFYNYWD** i adael y drafodaeth parthed glanhau'r rhan uchaf y Ffynnon, ar y bwrdd hyd nes y ceir gwybodaeth arbenigol. Roedd aelodau o'r farn ei fod yn holl bwysig i'r gwaith gael ei gyflawni gan berson profiadol, gan y gallai dulliau anaddas achosi difrod enfwr. **PENDERFYNWYD** gofyn i CADW am gyngor parthed glanhau'r Ffynnon (Clerc)

Y mae CSC yn cydnabod mai eu cyfrifoldeb hwy yw cynnal a chadw'r Sgwâr Harford, ond pwparas y cynllun arfaethedig a gyflwynwyd i'r CT oedd ceisio cyflawni gwelliannau'n uwch na'r arferol. Cynnig y grant oedd £3,000 neu 30% (beth bynnag oedd isaf); dylid wedi cyflwyno'r cais a'r gwaith wedi ei

orffen cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. (Amcanbris y gwaith arfaethedig petai yr Adran Briffyrdd yn ymwneud â'r gwaith oedd £10,250 sef £3,000 grant a £7,250 o goffrau'r CT). Gobeithiwyd cyflawni'r gwaith am bris is ar gyfer y trethdalwr. Nid yw'n hysbys os yw grant ar gael gan GSC ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

6.3 **APÊL Y CERRIG BEDDAU; Cyfanswm a gasglwyd £150. Dim datblygiadau.**

6.4 **YMHOLIAD PARTHED SIARTER FARCHNAD AR GYFER LLAMBED**: Bu i'r Cyng. S Walters ymchwilio'n ymhellach i'r ymholiad. Dywedodd y Cyng. Greg Evans nad oedd angen clustnodi sylw yn rhagor i'r testun.

6.5 **YSGOL FFYNNONBEDR DISGO FLYNYDDOL** a drefnir gan y Cyngor Tref: **PENDERFYNIAD**: i gysylltu â'r ysgol i drefnu dyddiad ac amser cyfleus (Cyngh. D.Williams); i brynu pop a chreision ar gyfer disgyblion ysgol gynradd (Cyngh. D.Williams) ac i gyflogi'r DJ sef Harold. (Clerc)

6.6 **TAITH NODDEDIG: HELPU'R ARWYR** : o Romford, Essex,(dyddiad dechrau 22 Ebrill) i Sgwâr Harford, Llambed (4 Mai – 250 milltir). **PENDERFYNWYD** – i geisio darganfod os yw'r 3 dyn ifanc, sy'n cymryd rhan yn y weithgaredd codi arian, yn perthyn i uned filwrol a phaham y maent wedi dewis gorffen eu taith yn Llambed (Clerc) **PENDERFYNWYD**; i wneud cyfraniad o £50.00 ar gyfer yr elusen *Helpu'r Arwyr.*

6.7 **PWLL NOFIO LLAMBED:** Adroddiad y Maer; yn ystod cyfarfod eithriadol o'r 9fed Chwefror cytunodd aelodau'r Pwll Nofio Cyf y byddai'r Cyngor Sir yn cymryd y llyw parthed cyfrifoldeb am y pwll, yn ystod y dyfodol agos. Bydd y pwll ar gael er gyfer nifer o ysgolion, a gosodir cyfamod mewn lle'n ystod y trosglwyddiad, i sicrhau parhâd mewn deunydd cymunedol.

6.8 **GWYLWYR Y GLANNAU: PENDERFYNWYD** cyflwyno ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad (Y Caderiydd: Y Cyng. Rob Phillips); yn gwrthwynebu'r toriadau i'r Gwasanaeth Gwylwyr Y Glannau sef cynlluniau'r Llywodraeth Glymblaid i gau 2 gwasanaeth Gwylwyr y Glannau yng Nghymru ac i is-raddio y 3ydd gwasanaeth. ATODIAD 1.

7. GOHEBIAETH

7.1 **CEISIADAU AR GYFER GWNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR TREF**

7.1.1 **RAY Ceredigion: parthed y Prosiect Chwarae I Blant**

7.1.2 **Cymorth i Ofalwyr**

7.1.3 **Asiantaeth Amgylchedd Cymru:** Helpu cymunedau i gynllunio a pharatoi'n well ar gyfer llifogydd.

PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiolwyr yr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gyfarfod mis Mawrth ac i wneud trefniadau ar gyfer cynrychiolwyr o Fudiadau RAY Ceredigion a Chymorth i Ofalwyr, i fynychu cyfarfodydd ar ddigwydd Y Cyngor Tref.

7.2 **GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD DAN LAW'R SAFLE AR Y WE Y CYNGOR TREF**: nodwyd er gwybodaeth gan gynnwys cais gan berson o wlad Pŵyl am gopi o'r slip cyfarch y CT er mwyn ychwanegu at ei gasgliad o fath

wrthrychau. **PENDERFYNWYD** i anfon slip cyfarch y cyngor tref at sylw'r gŵr bonheddig.

7.3 **CAU FFORDD DROS DRO: Rhodfa'r Bryn, Llambed: (estyniad tan 14 Chwefror 2011).** Y mae'r gwaith wedi ei gwblhau. Cyflwynwyd 3 set o fesuriadau distewi traffig sy'n gorfodi modurwyr i deithio'n araf ar yr heol. Y mae nodweddion newydd eraill yn cynnwys golau ychwanegol a lle penodedig ar gyfer cerddwyr ar bob ochr i'r heol. Meddylid bod mesuriadau ar gyfer diogelwch defnyddwyr wedi gwella ers y datblygiad newydd gan y Cyngor Sir, ond roedd y Gyngh. D. Williams o'r farn na fyddai distewi cyflymder yn unig, yn datrys yr holl broblem, gan fod cerddwyr yn teithio mewn 2 gyfeiriad. Yn ei thŷb hi, ni ellir gor-bwysleisio yr angen i gau'r heol yn gyfangwbl ar gyfer modurwyr mewn amserau uchaf o ddefnydd sef pan fydd plant yn cerdded i, ac o'r ysgol, ac i osod rhwystr mewn lle ar gyfer yr adegau hynny. **PENDERFYNWYD** mewn cyfarfod ynghynt i asesu'r sefyllfa ar ôl dyfodiad y newidiadau ac i adrodd unrhyw bryder at sylw'r CSC.

7.4 **CAU FFORDD DROS DRO: LLEOLIAD: SGWÂR HARFORD;** Heol y Coleg; Heol y Bont a'r Stryd Fawr (A475 & A482) o 18:00 Mawrth 2ail hyd 23.00 Mawrth 6ed 2011. Gwaith: arwynebu'r briffordd. Bydd yn hanfodol cau'r rhan o'r briffordd am y cyfnod a nodir er mwyn gwarantu diogelwch y cyhoedd am y cyfnod hwn. **PENDERFYNWYD** gofyn i'r CSC tybed a fyddai'n bosibl iddynt osod conau ar y Stryd Newydd a Bryn-yr-Eglwys yn ystod yr amser penodedig.

7.5 **YMGYNGHORIAD POLISI –** Ymatebwyr Gwirfoddol Un Llais Cymru: cyfle i bob aelod ystyried dod yn ymatebwr gwirfoddol i ymgynghoriadau polisi'r sector. **PENDERFYNWYD** – Meysydd Ymgynghori Polisi ac Enwau Ymatebwyr gwirfoddol

- **Trafnidiaeth:** Cyngh. Rob Phillips;
- **Cyfiawnder Cymdeithasol:** Cyngh. Elsie Dafis;
- **Pobl Hŷn:** Cyngh. Cecilia Barton;
- **Iechyd a Gofal Cymdeithasol;** Cyngh. Chris Thomas;
- **Twristiaeth a Diwylliant a Chwaraeon:** Cyngh. Selwyn Walters;
- **Twristiaeth:** Cyngh. Derek Wilson.

7.6 **S4C: Digwyddiadau Yng Ngheredigion:** yn ystod y pythefnos nesaf: er gwybodaeth.

7.7 **LLYTHYR GAN MR DAVID MORGAN,** Coedmor Cottages, Coedmor Fach, Cellan yn gofyn tybed a fyddai'r CT yn barod i gyhoeddi a chynyrchu Cyfeirydd Ymwelwyr ar gyfer Llambed yn debyg i'r un a oedd ar gael tan y flwyddyn ddiwethaf. **PENDERFYNWYD;** y Gyng. Elsie Dafis i gymryd cyfrifoldeb am lunio'r llyfryn a'r Clerc i hysbysu Mr Morgan.

8. CYNLLUNIO
CANIATÂD CYNLLLUNIO GAN CSC

Rhif y Cais/Lleoliad	Disgrifiad o'r gwaith a'r Math o Gais
8.1. A100979 Plas y Bryn, Heol Pontfaen, Llambed	Codi Estyniad

8.2. A100992 Asiantaeth yr Amgylchedd, Barley Mow, Llambed	Ailorchuddio'r to presennol gyda system siten proffil bocs

CEISIADAU CYNLLUNIO

Sylwadau ar Gais Cynllunio

Rhif y Cais/Lleoliad	Disgrifiad o'r gwaith a'r Math o Gais	Ymateb yr Aelodau
8.3. A10039CD Ysgol Uwchradd Llambed, Teras Peterwell	Heol newydd ar gyfer mynediad a safleoedd parcio ychwanegol.	***Er nad yw'r CT yn gwrthwynebu'r cais o ran egwyddor, y mae aelodau'n poeni y gallai'r traffig ychwanegol yn Nheras Greenfleld (gan fod 28 o safleoedd parcio wedi eu nodi ar gyfer y lleoliad) achosi anawsterau i drigolion y stryd *gul.*

***Dirprwyo swyddogaethau i'r Cadeirydd/ Is-Gadeirydd

8.4 DATBLYGIAD PRESWYL, tir gyferbyn â Brongest, Heol Llanfair Llanbedr PS; Y CT i ystyried cymryd cyfrifoldeb o bosibl am darn o dir ar gyfer hamddena. Y mae'r CSC wedi caniatau datblygiad ar gyfer 24 uned sy'n amrywiaeth o unedau 2/3 & 4 ystafell wely, gan gynnwys 8 uned fforddiadwy. Y mae'n fwriad gan yr ymgeisydd i ddarparu darn o dir i'r gogledd i'r safle at ddibenion hamddena. Nid yw'r darn o dir wedi ei gynnwys o fewn y cais cynllunio, felly bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd. Gan fod y tir at ddibenion hamddena ar gyfer y stâd breswyl, holodd y CSC, tybed a fyddai diddordeb gan y CT i gynnal a chadw'r tir.
PENDERFYNWYD i wrthod y cynnig ac i awgrymu y gallai'r tir gael ei gynnal a'i gadw gan fudiad preswylwyr yn gysylltiedig â'r ystâd newydd. Eisoes, y mae'r CT yn ysgwyddo cyfrifoldeb am 2 ardal hamddena sef Parc-yr-Orsedd a Chae Maesyderi ac ni deimlwyd ei fod yn briodol i'r CT i reoli safle arall yn wyneb dyletswyddau cyllidebol. Sicrhawyd aelodau y byddai'r darn o dir o dan trafodaeth, yn cael ei gadw fel ardal "werdd" ar gyfer y dref.

8.5 PENDERFYNIAD APÊL: Garej ar gyfer gwasanaeth ceir: Heol y Gogledd, Llambed: Ymweliad safle gan y Gwenidog Cymraeg ar yr 17eg o Ionawr 2011. Apêl gan Mr Matt Swindles, Primesight Cyf yn erbyn penderfyniad CSC i wrthod y cais cynllunio Cyfeirnod A100556AV ar gyfer cynigiad hysbysebu - uned arddangos fewnol wedi ei goleuo ac ynghlwm wrth bolyn.
PENDERFYNIAD yr apêl – i wrthod yr apêl.

8.6 CDLL Ceredigion 2007-22; Y Cyfnod Adneuo: Ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo: Ymateb erbyn 17.02.2011. Y mae'r Maer wedi cyflwyno ymateb ar ran y Cyngor Tref, yn lleisio barn yn erbyn datblygiad ar Gae Maesyderi ac ar Gae'r Eglwys; hefyd cais i ddiogelu'r hen rheillfordd. Y mae safleoedd heb eu datblygu ar gael ar stâd Brynsteffan. *Copi o'r ymateb ar gael dan law'r Maer Rob Phillips.*

9. MENTER LLAMBED & TRANSITION LLAMBED

9.1 **PENDERFYNIAD:** Bydd y defnydd o'r geiriau *Menter Llambed* fel yr ymddangosant ar ddogfennau'r CT ee yr Agenda, yn cael eu cyfnewid i "Menter Llambed a Transition Llambed" gan gychwyn yn syth.

9.2 **ADRODDODD Y CYNG. GREG EVANS BOD** Transition Llambed wedi cychwyn ar gynlluniau i adnweyddu Neuadd Fictoria gyda'r bwriad o'i thrawsnewid yn ganolfan gymunedol llewyrchus. Bydd y gwaith atgyweirio'n dechrau'n fuan ar y toiledau i gydymffurfio â gofynion Gorchymyn Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DDA) a hefyd bwriedir uwchraddio'r gegin. Gobeithir codi arian ar gyfer y gwaith cyn derbyn cymhorthdal. Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r CT i gynnal cyfarfodydd y dyfodol yn Neuadd Fictoria.

Y mae Transition Llambed wedi derbyn prydles 20 blynedd gan GSC ar gyfer rhedeg y Neuadd o ddydd i ddydd gan ddechrau yn Ebrill 2011 (yn seiliedig ar y cytundeb).

10. CYLLID

10.1 **CAB: CYNGOR AR BOPETH**; Derbyniwyd ymateb gan CAB parthed eu cyfraniad yn Llambed (Atodiad 4**) PENDERFYNWYD** gadael y drafodaeth ynglŷn â'r rhodd i'r mudiad, ar y bwrdd, tan y cyfarfod nesaf, yn unol â dymuniad y Gyngh. Elsie Dafis.

10.2 **CAIS GAN FUDIAD Y SGOWTIAID, LLAMBED** yn gofyn am gymhorthdal i ymwneud â gwelliannau i'w neuadd. Cytunwyd bod angen eglurhâd pellach parthed y cais yn wyneb cyfraniadau hael yn ddiweddar sef £11,500 (Cyfrif Rhodd mewn Ewyllys Ebrill 2010) a £500 (Cyngor Tref Mawrth 2010). **PENDERFYNWYD** gwahodd cynrychiolydd o'r mudiad i gyfarfod nesaf y CT i daflu goleuni ar y sefyllfa (Clerc).

10.3 **PWLL NOFIO LLAMBED CYF**: llythyr o ddiolch am y cyfraniad diweddar o £3,000.

10.4 **SWM PRIODOL O DAN ADRAN 137(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972** - £6.44 am bob etholwr. Gan fod oddeutu 1,600 o etholwyr yn Llambed y mae'n bosibl i gyfrannu £10,304 i elusennau'n ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er gwybodaeth: cyfanswm a gyfrannwyd i elusennau yn ystod y flwyddyn ariannol 2010-11@ 31.01.2011 yw £8,500. (£6.15 ar gyfer pob etholwr 2010-11- 1,631 o etholwyr @Mai 2008 = £10,030)

10.5 **Y LLENG BRYDEINIG**: trefnu digwyddiad yn ystod y penwythnos 10-12 Mehefin 2011, i ddathlu eu penblwydd yn 90 oed. **PENDERFYNWYD** – Y Gyng.D.Williams i ddarganfod os oes trefniadau ar y gweill gan Gangen Llambed y Lleng Brydeinig i ddathlu'r digwyddiad.

10.6 **DERBYNIADAU**

TÂL	**£**
Polyn newydd ar gyfer y Cwmin	£275.00
Cyfraniad gan y Gyng. C.Barton – Trac Beic	£10.00
Llog Bond Un blwyddyn- £30,000 wedi	£598.36. **PENDERFYNWYD** i

dod i ben – Chwefror 2011	drosglwyddo'r £30,000 i Fond newydd un blwyddyn (Llog 2% y flwyddyn)

10.7 TALIADAU

TÂL	**£**
Goleuadau Nadolig SWALEC	£667.55; TAW £133.51; CYFANSWM £801.07.
Ffermwyr Ieuainc Ceredigion	£50.00
Costau Gwres/Golau/Storio;Clerc; Chwefror 2011	£20.00
Cyllid a Thollau EM	£62.99
Cyflog y Clerc Chwefror 2011	£589.28
Te Ieuanc Mewn Ysbryd – hurio'r neuadd	£45.00 TAW £7.88 Cyfanswm £57.50
Hurio neuadd yr Eglwys Cyfarfod y CT 24.02.2011	£18.75
Glanhau'r llochesi bws Chwefror	£20.00

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 GOLEUADAU STRYD

Golau stryd Diffygiol: wedi goleuo drwy'r adeg – gyferbyn â'r cyffordd ger y Cartref Hafan Deg ar y briffordd Llambed i Lanwnnen. Y mae'n bosibl i gysylltu â'r Ganolfan Alw'r CSC yn uniongyrchol drwy ffonio 01545 572572 a dyfynnu'r rhif cyfresol a/neu'r lleoliad.

11.2 PALMANTAU

11.2.1 Derbyniwyd ateb gan y CSC ynglŷn a'r Consyrn gan aelod y cyhoedd parthed y palmant o flaen y Banc Barclays. Mae'r darn o balmant wedi derbyn sylw gan arolygydd y priffyrdd, sydd wedi cadarnhau nad oes diffygion gweladwy ar y palmant yn y fan yma a nid yw'n anghenrheidiol ymwneud â gwelliannau.

PENDERFYNIAD; i hysbysu'r ferch a ddioddefodd yr anffawd ar y palmant ar y 15.12.2010 (Clerc)

11.2.2 PENDERFYNWYD i adrodd y namau canlynol ar balmantydd y dref at sylw'r CSC:

11.2.2.1 Rhwng Siop Gwilym Price a Spar;
11.2.2.2 Wrth gefn i siop Williams Crown Stores, Stryd Fawr;

11.2.2.3 O flaen y blwch-postio ger yr Hen Swyddfa Bost.

11.3 LLWYBRAU CERDDED + PARC-YR-ORSEDD

PARC-YR-ORSEDD

11.3.1 **PENDERFYNIAD:** i ymwneud â'r gwelliannau fel y crybwyllwyd gan *Digley Associates* yn ystod eu harolwg Hydref 2010, yn ystod y dyfodol agos. (Cyng. Chris Thomas i drefnu). **PENDERFYNWYD** hefyd i gysylltu â Chyflenwyr yr Offer Fit-Trail, i ofyn tybed a fyddai'n bosibl iddynt drwsio'r offer ymarfer corff fel yr oedd wedi ei argymell o fewn yr arolwg. (Clerc)

11.3.2 **PENDERFYNWYD ceisio cynigion ar gyfer torri gwair ym Mharc-**yr-Orsedd o Ebrill tan fis Medi (i gynnwys y 2 fis yma) – 2 doriad y mis; toriadau gwair i'w symud o'r safle ac i gasglu sbwriel. Dyddiad Cau 31 Mawrth 2011. I arddangos hysbysebion ar yr Hysbysfwrdd ac ar wefan y CT (Clerc)

11.3.3 **PENDERFYNWYD –** i geisio cynigion parthed cynnal a chadw llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf. Llwybrau cerdded: **61**-14, 15, 16, 17, 18, 20 & **62-**6, 7, 8, 9, 10, 11. 14. Y Contractwyr i ddyfynnu'r raddfa ddyddiol. Dyddiad cau 31 Mawrth 2011. I arddangos hysbysebion ar yr Hysbysfwrdd ac ar wefan y CT (Clerc)

11.4 CAMERAU TCC

11.4.1 **Adroddiad misol Ionawr:** 2011: bu yna 4 cais gan yr heddlu i archwilio deunydd digidol, un cais am ddeunydd llonydd a 3 cais am ddisgiau copi yn ymwneud â defnyddio cerbyd heb ganiatâd (30.12.2010); trosedd yn ymwneud â chyffuriau (21.01.2011); Difrod troseddol (22.12.10) ac ysgarmes (30.01.2011) **Namau'n ymwneud â'r offer** – Dim.

11.5 YR IAITH GYMRAEG

11.5.1 **Bu i'r Caderiydd ddarllen** yr Adolygiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2010 (Atodiad 2 & 3). Gwahoddir sylwadau yn ymwneud â'r Adolygiad gan aelodau'r cyhoedd – hysbysir hyn yn Llyfrgell y Dref; gwefan y Cyngor Tref; Cambrian News; Y Clonc a'r Carmrthen Journal. (Clerc)

11.5.2 **Eithrio'r Cyhoedd a'r Wasg: PENDERFYNWYD**, un unol â deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 bod y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod.

11.6 RHEOLI CAE MAESYDERI

11.6.1 **(Cyfarfod o'r 16.02.2011):** adborth: cofnodion ynghlwm.

11.6.2 **Her Meysydd Brenhines Elisabeth 11:** Meysydd Chwarae Cymru: Prosiect Cymynrodd Newydd Meysydd Chwarae Cymru (Fields in

Trust) sydd yn cael ei arwain gan y Tywysog Wiliam i ddynodi Jiwbilî Deimwnt Ei Mawrhydi'r Frenhines a Gemau Olympaidd Llundain 2012. Nod y rhaglen yw diogelu 2012 o safleoedd hamdden awyr agored – Meysydd Brenhines Elisabeth 11 – ar gyfer cymunedau ar draws y DU erbyn 2012.
Mae'n bosibl i unrhyw gyngor, mawr neu fach, i gymryd rhan yn yr Her drwy enwebu safle hamdden i'w gynnwys yn y rhaglen ac mae pob math o fannau awyr agored yn gymwys gan gynnwys man awyr agored bach/anffurfiol; parciau; meysydd chwarae i blant; ardaloedd bywyd gwyllt/coetir/llwybrau natur; llwybrau i feiciau; meysydd chwarae; mannau awyr agored o fewn datblygiadau newydd. Bydd Meysydd Brenhines Elisabeth 11 hefyd yn medru cael mynediad at gyllid i greu gwelliannau. **PENDERFYNWYD** enwebu'r Cae Maesyderi fel safle posibl o fewn y 2012 o safleoedd.

12. U.F.A.

12.1 PENDERFYNWYD – gofyn i'r person sy'n ysgubo'r strydoedd tybed a fyddai'n bosibl iddo godi'r sbwriel sydd wed ei daflu'n bennaf gan blant ysgol yng nghyffiniau Llys Idwal (Cyng. H. Harris)

12.2 Holodd y Gyng. Elsie Dafis a oedd trefniadau mewn lle i ddatgysylltu goleuadau Nadolig y dref. Adroddwyd bod cynlluniau ar y gweill gan y Siambr Fasnach i ymgymryd â'r gwaith yn ystod y dyfodol agos.

12.3 Cyfeiriodd y Cyng. Walters at y meinciau ym Mharc St. Germain-sur-Moine a holodd pwy oedd yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw. Atebwyd mai dyletswydd y Cyngor Sir yw ymwneud â hyn. **PENDERFYNWYD**: i ofyn i'r CSC i asesu cyflwr y meinciau ac i ymgymryd â gwelliannau'n ôl yr angen.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.25pm.

13. DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF

13.1 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI: DYDD MERCHER 23 MAWRTH AM 6.30PM: SWYDDFA MENTER LLAMBED;

13.2 CYFARFOD MISOL 31 MAWRTH 2011 AM 7.30PM YN NEUADD YR EGLWYS, LLAMBED.

----------(arwyddwyd a dyddiad)